



PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY

Athrofa y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

YR AROLWG BUSNES FFERM YNG NGHYMRU

Llyfryn Incwm Fferm Cymru

Canlyniadau 2013/14

Noddwyd gan



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNNWYS	Tudalen
Rhagair	1
Trosolwg	2
Cyflwyniad	4
Diffiniad o Derminoleg a Nodiadau Eglurhaol	5
Data Fferm Gyfan	
Ffermydd mynydd gwartheg a defaid	7
Ffermydd mynydd defaid	9
Ffermydd ucheldir gwartheg a defaid	11
Ffermydd llawr gwlad gwartheg a defaid	13
Ffermydd godro – ardaloedd llai ffafriol	15
Ffermydd godro – llawr gwlad	17
Data Elw Bras	
Defaid mynydd	19
Defaid ucheldir	19
Defaid llawr gwlad	20
Buchod sugno llawr gwlad	20
Buchod sugno ucheldir	21
Buchod sugno mynydd	21
Buchod godro ardaloedd llai ffafriol	22
Buchod godro llawr gwlad	22
Data Costau Cynhyrchu	
Costau cynhyrchu cig oen	23
Costau cynhyrchu llaeth	23
Costau cynhyrchu cig eidion: lloi sugno	24
Costau cynhyrchu cig eidion: pesgi	24
Cyswllt Ffermio	25

75mlynedd
o'r Arolwg Busnes Fferm

Prifysgol
Aberystwyth
University

**Llyfryn Incwm Fferm Cymru
Canlyniadau 2013/14**

Arolwg Busnes Fferm

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
Prifysgol Aberystwyth
Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EE

Cyfarwyddwr

Tony O'Regan

Staff yr Uned

Nigel Chapman
Rowland Davies
Eileen Edwards
Brenda Jones
Dylan Jones
Eric Jones
Nick Reeves
Tegid Roberts
Huw Williams
Ian Williams

Ffôn: 01970 622253

E-bost: farmsurv@aber.ac.uk

<http://www.aber.ac.uk/en/ibers/enterprise-kt/fbs/>

Rhagair

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn ymchwilio incwm ffermydd Cymru er cyn yr Ail Ryfel Byd ac yn 2011/12 nodwyd 75 mlwyddiant yr Arolwg. Mae'r Arolwg, sy'n cael ei gydnabod fel yr un mwyaf awdurdodol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad incwm ffermydd, yn darparu gwybodaeth i wneuthurwyr polisi ar gyflwr economaidd y diwydiant ac yn darparu data cymharol gwerthfawr ar gyfer asesu perfformiad ffermydd unigol.

Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar yr Arolwg Busnes Fferm (FBS) llawn sy'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd ar dros 550 o ffermydd Cymru a ddewiswyd ar hap. Bwriad y llyfryn yw darparu teclyn meincnodi sy'n hawdd ei ddefnyddio i ffermwyr ac mae'n cynnwys y wybodaeth ariannol a ffisegol ddiweddaraf am y prif fathau o ffermydd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn groes i rai agweddau o fethodoleg yr FBS a'r ffordd o gyflwyno canlyniadau, er enghraifft, mae mewnbynnau tybiannol megis gwerth rhentu ar gyfer ffermydd ym meddiant y perchennog a llafur di-dâl wedi cael eu cymryd allan tra bo taliadau cyllid wedi cael eu cynnwys, er mwyn i'r ffigurau hyn gynrychioli costau gwirioneddol. Mae'r llyfryn hwn yn dangos llafur di-dâl i ddibenion cyfeirio yn unig ac hefyd mae ond yn cynnwys rhai mathau o ffermydd. Ar gyfer dadansoddiad cynhwysfawr ac ar gyfer ddadansoddi tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn ar incwm, cyfeiriwch at y canlyniadau llawn a gyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol 'Arolwg Busnes Ffermydd yng Nghymru: Canlyniadau Ystadegol ' (ar gael ar-lein).

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn gysylltiedig ag astudiaethau'r tir ers 1878, a'r FBS yw ei chytundeb ymchwil hynaf. Priodol felly yw cydnabod yn ddiolchgar y llu o ffermwyr ledled Cymru sydd wedi darparu gwybodaeth fanwl; Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Arolwg presennol; Cyswllt Ffermio am noddi'r llyfryn hwn a staff yr Arolwg, ddoe a heddiw.

Tony O'Regan

Cyfarwyddwr yr Arolwg Busnes Fferm

Trosolwg

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn hwn yn cynnwys y blynyddoedd cyfrifo a ddaeth i ben rhwng 31 Rhagfyr 2013 a 31 Mawrth 2014 ac maent felly'n adlewyrchu'r amodau ffermio rhwng Ionawr 2013 a Mawrth 2014. Bwriad y trosolwg hwn yw darparu cyd-destun a chipolwg o'r cyfnod y mae'r canlyniadau'n ei gynrychioli.

Bu tymor cynhaeaf 2012 yn amser anodd, ac effaith gyffredinol hynny oedd cyflenwadau porthiant gwael ac anawsterau sefydlu cnydau cyn gaeaf 2012/13. O ganlyniad i'r gwanwyn hir, oer a sych yn 2013 bu'n rhaid i ffermwyr brynu llawer o fwyd anifeiliaid a phorthiant, gan dalu prisiau uchel am gynnyrch a oedd weithiau o ansawdd amrywiol. Cronnodd yr anawsterau cysylltiedig â'r tywydd yn ystod y gwanwyn, gyda sawl ardal yn cael cyfnodau hir a digynsail o eira ar yr amser gwaethaf posibl, sef yn ystod y cyfnod wyna a sefydlu cnydau. Collwyd niferoedd sylweddol o ddefaid ac ŵyn, ac mewn rhai achosion adeiladau hyd yn oed, a bu'n rhaid ail-hau hectarau lawer o gnydau gaeaf gydag amrywiadau'r gwanwyn. Roedd yr eira a safai ar y ddaear yn dwysáu'r angen am fwyd anifeiliaid a phorthiant. Yn y diwedd, fe wellodd y tywydd a'r amodau tyfu gan arwain at gynaeafau gwell nag a ragwelwyd ar gyfer 2013, o safbwynt eu hansawdd a'u maint.

Cymysg fu canlyniadau'r flwyddyn o safbwynt defaid. Oherwydd y niferoedd mawr o ŵyn a gollwyd, ynghyd â'r cynnydd sylweddol yng nghostau porthiant, problemau iechyd yn ymwneud â'r tywydd a thwf gwael porfeydd cynnar, cafwyd cynnydd sylweddol mewn costau. Er bod incymau wedi elwa o ganlyniad i bryderon cynnar ynghylch cyflenwad a galw, cwmpodd prisiau uwch yr ŵyn mewn dim o dro erbyn canol yr haf, ac ni chodasant wedi hynny. Arweiniodd hyn at berfformiad gwael ar lefel yr elw bras. Dioddefodd cynhyrchwyr cig eidion gynnydd cyffelyb mewn costau, ond fe wnaethant hwy elwa o fasnach gref am y rhan fwyaf o 2013 er i'r lleihad dramatig yn y prisiau a dalwyd ar ddechrau 2014 niweidio maint yr elw gan arwain at ddiffyg hyder sy'n parhau hyd heddiw.

Elwodd cynhyrchwyr llaeth o gynnydd sylweddol a pharhaus mewn prisiau llaeth, ac roedd hyn i'w

groesawu. Gyda phyllau silwair 2013/14 yn llawn porthiant o safon, cynyddodd maint yr elw o ganlyniad, er i TB barhau i beri trafferthion i lawer o gynhyrchwyr. Yn sgil y cynnydd mewn elw gwelwyd mwy o fuddsoddi mewn cynhyrchu llaeth wrth i gynhyrchwyr presennol, cynhyrchwyr newydd a chynhyrchwyr oedd yn dychwelyd fagu hyder ar gyfer y dyfodol.

Roedd yr agweddau arwyddocaol eraill yn ystod y cyfnod ffermio yn cynnwys cyfradd gyfnewid ffafriol yn erbyn yr Ewro, buddsoddi sylweddol mewn asedau Tariffau Cyflenwi Trydan ac elw sylweddol yn deillio ohonynt. Roedd symudiad i ffwrdd oddi wrth cynhyrchu organig wrth i gytundebau ddod i ben, ac ychwanegodd y broses estynedig o ddiwygio'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin fwy o ansicrwydd i flwyddyn anodd o safbwynt masnachu a ffermio.

Mae'r canlyniadau hyn yn amlygu gwahaniaethau sylweddol rhwng ffermydd sy'n perfformio ar lefel 'gyffredin' a rhai sy'n perfformio ymhlith y 'treian uchaf', ar draws ystod o fesurau effeithlonrwydd. Er enghraifft, roedd elw (£ fesul hectar effeithiol) y ffermydd defaid ucheldir a oedd yn y treian uchaf o safbwynt perfformiad ddwywaith yn fwy na'r ffermydd cyffredin yn y sampl. Ar ffermydd llaeth gwnaeth cynhyrchwyr y treian uchaf elw net dros pedair gwaith yn fwy na'r treian isaf. Gwelwyd amrywiaeth gyffelyb ymhlith cynhyrchwyr cig gyda chynhyrchwyr cig oen yn amrywio, o gael 32c/kg i golli 123c/kg, a chynhyrchwyr cig eidion yn amrywio o golli 72c/kg i golli 62c/kg. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau hyn yn ystyried cost llafur y ffermwr, a gallai hepgor honno, o'i chamddefnyddio, gyflwyno darlun camarweiniol o economeg cynhyrchu. Mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg yn y sector llaeth gan y gall y costau llafur a phensiynau yn unig ychwanegu tua 6-7c/l, gan wthio costau cynhyrchu'r traean uchaf i dros 27c/l a'r rhai isaf yn agosach at 37c/l.

Yn ogystal â hyn, dylid rhoi sylw penodol i'r cyfraniad a wneir gan y Taliad Sengl (SFP), cymorthdaliadau eraill ac incwm arallgyfeirio fel bod modd i'r darllenydd weld y cyfraniad y mae mentrau 'ffermio' yn ei wneud i'r elw net. Er enghraifft, cyfrannodd y tair ffynhonnell hyn tua 40% o'r allbwn a 250% o'r elw, ar gyfartaledd, ar gyfer ffermydd defaid ucheldir.

Cyflwyniad

Mae proffidioldeb yn ganolog i unrhyw fusnes fferm, er y bydd gan ffermwyr lawer o amcanion busnes a phersonol eraill. Gyda dyfodiad y newidiadau i gynllun y Taliad Sengl, dylai pob ffermwr fod yn ymwybodol o'u costau cynhyrchu a sut mae'r costau hynny yn cymharu a chynhyrchwyr eraill. Mae'r amrywiaeth o ran perfformiad ac elw a welir yn y llyfryn hwn yn dangos ehangder y gwellianau posib a thrwy gymharu neu 'feincnodi' perfformiad fferm, gellir adnabod cryfderau a gwendidau y busnes.

Mae'r canlyniadau yn y llyfryn wedi eu gosod allan fel a ganlyn gan ddangos data ar gyfer y busnesau yn gyfartalog ar trean uchaf o ran perfformiad:

1. Data Fferm Gyfan (Tudalennau 7 – 18)

Cyflwynir gyfrifon elw a cholled a mantolen gryno ar gyfer chwe gwahanol fath o fferm. Dengys y canlyniadau gyfartaledd elw neu golled y ffermydd hyn ynghyd â'r cyfartaledd fesul hectar. Dengys hefyd faint a graddfa stocio'r ffermydd ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol, perthnasol eraill.

2. Data Elw Bras (Tudalennau 19 – 22)

Yn y llyfryn ceir data ar gyfer wyth gwahanol fenter fferm. Mae elw bras yn cymharu incwm gyda chostau uniongyrchol cynhyrchu. Mae angen cryn ofal wrth ddefnyddio elw bras gan nad yw costau anuniongyrchol (sefydlog) y cynhyrchu yn cael eu hystyried.

3. Data Costau Cynhyrchu (Tudalennau 23 – 24)

Yn y llyfryn ceir costau cynhyrchu ar gyfer pedwar allbwn amaethyddol. Ystyrir cyfanswm cost cynhyrchu fesul uned. Trwy ystyried y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol (a ddyfernir fesul uned da byw) mae cynhyrchwr mewn gwell lle i ystyried pa mor gystadleuol ac effeithiol yw'r fenter.

DIFFINIADAU O DERMINOLEG A NODIADAU EGLURHAOL

<i>Hectarau effeithiol (Eff. Ha.)</i>	Golyga arwynebedd y fferm gyfan ar ôl tynnu arwynebedd ffyrdd, coetiroedd, tir diffaith ac adeiladau ac ar ôl ystyried porfa bras yn ôl ei arwynebedd cyfwerth o dir pori da.
<i>Cynllun y Taliad Sengl</i>	Disodlwyd holl gymorthdaliadau a oedd yn gyswllt â chynhyrchiant gyda Chynllun y Taliad Sengl fel rhan o ailstrwythuro'r polisi amaethyddol cyffredin (CAP).
Mathau o Ffermydd	
<i>Mynydd</i>	Yn yr Ardal Dan Anfantais Fawr yn bennaf.
<i>Ucheldir</i>	Yn yr Ardal Dan Anfantais yn bennaf.
<i>Llawr Gwlad</i>	Y tu allan i'r Ardal Llai Ffafirol yn bennaf.
Data Fferm Gyfan	
<i>Penderfynu data fferm gyfan</i>	Dynodir y cynhyrchwyr uchaf yn ôl elw ar ôl rhent a chyllid fesul hectar effeithiol.
<i>Cymorthdaliadau anuniongyrchol</i>	Cymorthdaliadau na gafwyd eu dadgyplu e.e. cynllun Organig, Tir Gofal a Glastir.
<i>Costau cnydau eraill</i>	Yn cynnwys holl gostau porthiant a chnydau eraill e.e. hadau, chwystrellion, lapio a chortyn ond nid gwraith a chontractio.
<i>Contractio penodedig</i>	Contractio y gellir ei gysylltu â mentrau penodedig e.e. combeinio, cneifio a gwasgaru slyri.
<i>Costau fferm cyffredinol</i>	Yn cynnwys trydan, ffôn, trwyddedau, yswiriant, ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau.
<i>Incwm amrywiol</i>	Yn cynnwys contractio, rhent bythynod, taliadau fforddfraint ac unrhyw incwm amrywiol arall. Yn cynnwys elw o unrhyw fentrau arall sydd ddim yn arddangos.
<i>Cyfran o'r fferm a berchnogir</i>	Gwerth Net wedi ei fynegi fel canran o'r asedau cyfan.
<i>Cyfradd Stocio (glu/adj. forage ha)</i>	Unedau pori da byw fesul hectar o dir porthiant wedi'i gymhwyso.
<i>Unedau Da Byw (LU) ac Unedau Pori Da Byw (GLU)</i>	Cyfnewidir niferoedd da byw yn unedau da byw ar sail amcangyfrif o anghenion egni, er mwyn cyfrifo cyfanswm stocio'r da byw sy'n pori ar y fferm.
<i>Buchod godro – allbwn arall</i>	Allbwn net o werthu/brynu gwartheg a lloi. Hefyd yn cynnwys newid mewn gwerth.

<i>Llafur taledig</i>	Cyfanswm y llafur a dalwyd yn cynnwys llafur achlysurol, rhan amser a llawn amser.
<i>Llafur di-dâl</i> <i>(heb gynnwys ffermwr a'i briod)</i>	Llafur di-dâl neu lafur a dderbynnir am daliad sydd yn llai na'r hyn a delir fel arfer am y gwasanaeth. Ni chaiff llafur di-dâl ei gynnwys yn yr elw ar ôl rhent a chyllid.
<i>Costau tir</i>	Yn cynnwys costau'n berthnasol i atgyweirio adeiladau ac adnoddau tir e.e. gwrychoedd, ffensio, walio, ffosydd a chlwydi. Hefyd yn cynnwys costau dŵr.
<i>Cyllid</i>	Yn cynnwys costau banc, taliadau llog ac unrhyw log prydlesu/hur-bryniant. Dim yn cynnwys ad-daliadau cyfalaf.
<i>Data Elw Bras</i>	Y pen ar sail y fuches / ddiadell. Dangosir i'r mentrau penodol drwy dynnu'r costau uniongyrchol (amrywiol) o'r allbwn perthnasol.
<i>Costau da byw eraill</i>	Prynu deunyddiau megis gwellt, comisiwn gwerthu a chostau penodol eraill y mentrau da byw.
<i>Porthiant a chostau porthiant</i>	Yn cynnwys costau eraill i borthiant, gwrtaith contractio porthiant a chostau tir pori tymhorol.
<i>Data Costau Cynhyrchu</i>	Cyfririr drwy rannu'r costau amrywiol a sefydlog gyda'r cilogram o gig (mewn pwysau byw) neu litr o laeth a gynhyrchir. Penodi'r y costau sefydlog ar unedau pori da byw ar ôl i'r cyfran o unrhyw dir â'r a/neu incwm amrywiol gael ei ddiddynnu. Yn drefnedig drwy elw net.
<i>Adnewyddu buches/diadell</i>	Newid yng ngwerth da byw magu, wedi ystyried gwerthiant anifeiliaid a phryniant anifeiliaid magu.
<i>Pŵer a pheiriannau</i>	Yn cynnwys atgyweirio peirianwaith, tanwydd, contractio arall a dibrisio peiriannau.
<i>Adeiladau</i>	Costau tir a dibrisiad adeiladau.
<i>Elw net</i>	Allbwn ar ôl cyfanswm costau/mewnbwn i fentrau penodol.

DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 119

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	43,364	362	486
Defaid	40,981	342	485
Cnydau a phorthiant	1,877	16	15
Taliad Sengl	31,007	259	297
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	6,372	53	74
Incwm amrywiol	6,609	55	77
CYFANSWM ALLBYNNAU	130,210	1,087	1,434
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	24,017	200	233
Costau tir pori tymhorol	5,225	44	46
Milfeddygol a meddyginiaethau	4,914	41	47
Costau da byw eraill	8,855	74	90
Gwrteithiau	8,740	73	82
Costau cnydau eraill	1,956	16	18
Contractio penodedig	4,073	34	42
CYF. COSTAU NEWIDIOL	57,780	482	558
Llafur y telir amdano	4,539	38	33
Contractio arall a llogi peiriannau	881	7	6
Tanwydd a thrwsio	11,790	98	112
Dibrisiant peiriannau	13,081	109	114
Costau ffermio cyffredinol	10,297	86	89
Costau tir	4,409	37	37
Dibrisiant adeiladau	3,462	29	32
CYF. COSTAU SEFYDLOG	48,459	404	423
CYFANSWM MEWNBYNNAU	106,239	886	981
ELW CYN RHENT A CHYLLID	23,971	201	453
Rhent	2,394	20	21
Cyllid	3,380	28	16
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	18,197	153	416
Llafur di-dâl	6,344	53	65

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
	£/fferm	£/fferm	£/fferm
MANTOLEN			
Nifer o ffermydd	65	6	48
CYFANSWM ASEDAU	1,030,522	285,677	1,050,034
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	86,395	52,402	80,029
GWERTH NET	944,127	233,275	970,005
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	92	82	92

DATA FFISEGOL	Pob fferm	Traean uchaf
ARWYNEBEDD TIR	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	105.84	92.73
Ydau a chnydau eraill	0.99	0.84
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	42.28	46.95
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	149.11	140.52
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	119.86	103.92

DA BYW	Pob fferm	Traean uchaf
	nifer	nifer
Buchod sugno	42	41
Gwartheg eraill	87	92
Defaid magu	598	546
Defaid eraill	392	382

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.12	1.28
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	0.83	0.91
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	72.26	78.63
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.89	0.94
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,205	1,370
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	876	945
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.05	1.17

DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 118

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	14,262	96	167
Defaid	50,262	338	544
Cnydau a phorthiant	1,305	9	20
Taliad Sengl	31,224	210	292
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	9,252	62	59
Incwm amrywiol	4,593	31	52
CYFANSWM ALLBYNNAU	110,898	746	1,134
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	18,675	126	159
Costau tir pori tymhorol	5,823	39	52
Milfeddygol a meddyginiaethau	4,238	28	42
Costau da byw eraill	5,904	40	58
Gwrteithiau	6,135	41	66
Costau cnydau eraill	1,384	9	17
Contractio penodedig	3,022	20	29
CYF. COSTAU NEWIDIOL	45,181	303	423
Llafur y telir amdano	3,685	25	21
Contractio arall a llogi peiriannau	889	6	10
Tanwydd a thrwsio	10,816	73	99
Dibrisiant peiriannau	11,056	74	105
Costau ffermio cyffredinol	9,182	62	78
Costau tir	3,305	22	30
Dibrisiant adeiladau	2,380	16	16
CYF. COSTAU SEFYDLOG	41,313	278	359
CYFANSWM MEWNBYNNAU	86,494	581	782
ELW CYN RHENT A CHYLLID	24,404	165	352
Rhent	3,207	22	34
Cyllid	3,124	21	24
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	18,073	122	294
Llafur di-dâl	5,437	37	48

FFERMYDD MYNYDD DEFAID

2013/14

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
	£/fferm	£/fferm	£/fferm
MANTOLEN			
Nifer o ffermydd	59	11	48
CYFANSWM ASEDAU	1,127,600	202,811	765,925
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	69,501	57,678	89,040
GWERTH NET	1,058,099	145,133	676,885
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	94	72	88

DATA FFISEGOL	Pob fferm	Traean uchaf
ARWYNEBEDD TIR	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	123.07	99.40
Ydau a chnydau eraill	0.52	0.80
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	89.47	30.37
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	213.06	130.57
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	148.77	109.30

DA BYW	Pob fferm	Traean uchaf
	nifer	nifer
Buchod sugno	13	13
Gwartheg eraill	29	35
Defaid magu	926	882
Defaid eraill	573	600

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.06	1.19
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	0.69	0.80
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	64.41	67.79
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.89	0.92
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,318	1,273
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	856	848
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	0.69	0.98

DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 92

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	41,717	403	588
Defaid	37,433	361	466
Cnydau a phorthiant	6,741	65	73
Taliad Sengl	24,742	239	276
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	3,786	37	44
Incwm amrywiol	6,409	62	62
CYFANSWM ALLBYNNAU	120,828	1,167	1,509
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	18,116	175	203
Costau tir pori tymhorol	3,197	31	23
Milfeddygol a meddyginiaethau	3,883	37	37
Costau da byw eraill	6,858	66	81
Gwrteithiau	9,465	91	116
Costau cnydau eraill	2,440	24	30
Contractio penodedig	4,570	44	45
CYF. COSTAU NEWIDIOL	48,529	468	535
Llafur y telir amdano	3,292	32	27
Contractio arall a llogi peiriannau	931	9	6
Tanwydd a thrwsio	10,833	105	111
Dibrisiant peiriannau	13,020	126	130
Costau ffermio cyffredinol	9,307	90	90
Costau tir	4,291	41	40
Dibrisiant adeiladau	3,301	32	38
CYF. COSTAU SEFYDLOG	44,975	435	442
CYFANSWM MEWNBYNNAU	93,504	903	977
ELW CYN RHENT A CHYLLID	27,324	264	532
Rhent	3,393	33	34
Cyllid	2,520	24	21
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	21,411	207	477
Llafur di-dâl	4,991	48	67

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
MANTOLEN	£/fferm	£/fferm	£/fferm
Nifer o ffermydd	50	5	37
CYFANSWM ASEDAU	851,829	154,819	1,019,542
CYF. DYLEDION ALLANOL	50,319	1,576	93,741
GWERTH NET	801,510	153,243	925,801
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	94	99	91

DATA FFISEGOL	Pob fferm	Traean uchaf
ARWYNEBEDD TIR	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	97.36	112.53
Ydau a chnydau eraill	3.23	5.63
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	9.75	8.03
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	110.34	126.19
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	103.59	120.05

DA BYW	Pob fferm nifer	Traean uchaf nifer
Buchod sugno	31	36
Gwartheg eraill	83	128
Defaid magu	454	526
Defaid eraill	308	397

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.33	1.50
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	1.08	1.30
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	79.25	87.47
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.89	0.91
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,287	1,306
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	908	1,061
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.12	1.34

DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 59

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Gwartheg cig eidion	36,375	472	631
Defaid	33,133	430	558
Cnydau a phorthiant	9,157	119	143
Taliad Sengl	21,266	276	316
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	2,273	29	36
Incwm amrywiol	5,830	76	109
CYFANSWM ALLBYNNAU	108,034	1,402	1,793
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	15,117	196	209
Costau tir pori tymhorol	2,369	31	48
Milfeddygol a meddyginiaethau	3,100	40	43
Costau da byw eraill	6,297	82	102
Gwrteithiau	6,783	88	97
Costau cnydau eraill	2,885	37	50
Contractio penodedig	3,243	42	43
CYF. COSTAU NEWIDIOL	39,794	516	592
Llafur y telir amdano	2,694	35	54
Contractio arall a llogi peiriannau	772	10	12
Tanwydd a thrwsio	9,441	123	139
Dibrisiant peiriannau	10,474	136	142
Costau ffermio cyffredinol	9,443	123	132
Costau tir	2,854	37	47
Dibrisiant adeiladau	2,268	29	39
CYF. COSTAU SEFYDLOG	37,946	493	565
CYFANSWM MEWNBYNNAU	77,740	1,009	1,157
ELW CYN RHENT A CHYLLID	30,294	393	636
Rhent	4,424	57	39
Cyllid	2,547	33	14
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	23,323	303	583
Llafur di-dâl	4,493	58	102

	Wedi'i pherchnogi	Tenant	Cymysg
	£/fferm	£/fferm	£/fferm
MANTOLEN			
Nifer o ffermydd	26	9	24
CYFANSWM ASEDAU	809,048	172,245	934,487
CYF. DYLEDION ALLANOL	46,080	13,468	94,086
GWERTH NET	762,968	158,777	840,401
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	94	92	90

DATA FFISEGOL	Pob fferm	Traean uchaf
ARWYNEBEDD TIR	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	68.85	68.13
Ydau a chnydau eraill	4.99	5.77
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	7.91	9.41
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	81.75	83.31
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	77.06	77.71

DA BYW	Pob fferm nifer	Traean uchaf nifer
Buchod sugno	19	14
Gwartheg eraill	79	100
Defaid magu	351	345
Defaid eraill	278	331

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	Pob fferm	Traean uchaf
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.36	1.48
Gwerthiant ŵyn parod (nifer y ddafad)	1.26	1.36
Gwerthiant ŵyn parod (£ y oen)	81.44	87.12
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.92	1.04
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,344	1,488
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	881	1,094
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.32	1.43

DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 66

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Buchod godro - llaeth	268,294	2,958	4,756
- allbwn arall	102	1	-43
Gwartheg eraill	42,560	469	540
Defaid	10,450	115	93
Cnydau a phorthiant	5,411	60	43
Taliad Sengl	24,854	274	404
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	1,652	18	24
Incwm amrywiol	4,162	46	66
CYFANSWM ALLBYNNAU	357,485	3,941	5,883
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	94,735	1,045	1,405
Costau tir pori tymhorol	13,349	147	232
Milfeddygol a meddyginiaethau	10,866	120	155
Costau da byw eraill	23,416	258	390
Gwrteithiau	20,156	222	306
Costau cnydau eraill	5,798	64	69
Contractio penodedig	14,418	159	195
CYF. COSTAU NEWIDIOL	182,738	2,015	2,752
Llafur y telir amdano	11,566	128	216
Contractio arall a llogi peiriannau	2,596	29	33
Tanwydd a thrwsio	18,893	208	260
Dibrisiant peiriannau	18,461	204	286
Costau ffermio cyffredinol	18,647	206	258
Costau tir	6,824	75	112
Dibrisiant adeiladau	9,941	110	121
CYF. COSTAU SEFYDLOG	86,928	960	1,286
CYFANSWM MEWNBYNNAU	269,666	2,975	4,038
ELW CYN RHENT A CHYLLID			
Rhent	4,886	54	76
Cyllid	9,281	102	78
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	73,652	810	1,691
Llafur di-dâl	10,233	113	177

	Wedi'i pherchnogi £/fferm	Tenant £/fferm	Cymysg £/fferm
MANTOLEN			
Nifer o ffermydd	34	3	29
CYFANSWM ASED AU	1,320,950	-	985,317
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	248,698	-	290,789
GWERTH NET	1,072,252	-	694,528
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	81	-	70

DATA FFISEGOL	Pob fferm	Traean uchaf
ARWYNEBEDD TIR	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	86.23	64.33
Ydau a chnydau eraill	1.91	0.00
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	10.12	8.15
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	98.26	72.48
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	90.69	66.18

DA BYW	Pob fferm nifer	Traean uchaf nifer
Buchod godro	127	142
Buchod sugno	1	0
Gwartheg eraill	110	86
Defaid magu	175	73
Defaid eraill	85	50

DANGOSYDDION PERFFORMIAD	Pob fferm	Traean uchaf
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	6,813	7,161
Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch)	1,482	1,644
Gwerthiant llaeth (£ y fuwch)	2,086	2,190
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	31.10	31.01
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	1.99	2.16

DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd : 57

	Pob fferm £/fferm	Pob fferm £/eff.ha.	Traean uchaf £/eff.ha.
ALLBYNNAU			
Buchod godro - Ilaeth	365,714	3,238	4,418
- allbwn arall	-1,886	-17	42
Gwartheg eraill	54,115	479	605
Defaid	4,682	41	11
Cnydau a phorthiant	7,682	68	58
Taliad Sengl	32,718	290	319
Cymorthdaliadau anuniongyrchol	1,932	17	14
Incwm amrywiol	5,982	53	88
CYFANSWM ALLBYNNAU	470,939	4,169	5,555
MEWNBYNNAU			
Bwydydd	120,189	1,064	1,381
Costau tir pori tymhorol	12,702	112	123
Milfeddygol a meddyginiaethau	12,877	114	150
Costau da byw eraill	30,984	274	326
Gwrteithiau	21,249	188	218
Costau cnydau eraill	7,904	70	65
Contractio penodedig	19,465	172	229
CYF. COSTAU NEWIDIOL	225,370	1,994	2,492
Llafur y telir amdano	26,251	232	155
Contractio arall a llogi peiriannau	1,782	16	9
Tanwydd a thrwsio	24,792	220	243
Dibrisiant peiriannau	24,428	216	258
Costau ffermio cyffredinol	24,272	215	232
Costau tir	8,140	72	97
Dibrisiant adeiladau	11,313	100	136
CYF. COSTAU SEFYDLOG	120,978	1,071	1,130
CYFANSWM MEWNBYNNAU	346,348	3,065	3,622
ELW CYN RHENT A CHYLLID	124,591	1,104	1,933
Rhent	7,989	71	23
Cyllid	8,528	76	42
ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID	108,074	957	1,868
Llafur di-dâl	10,277	91	144

	Wedi'i pherchnogi £/fferm	Tenant £/fferm	Cymysg £/fferm
MANTOLEN			
Nifer o ffermydd	26	6	25
CYFANSWM ASED AU	1,681,849	292,529	1,472,906
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	198,150	28,913	297,394
GWERTH NET	1,483,699	263,616	1,175,512
Cyfran o'r fferm a berchnogir (%)	88	90	80

DATA FFISEGOL	Pob fferm	Traean uchaf
ARWYNEBEDD TIR	Hectarau	Hectarau
Glaswelltir a chnydau phorthiant	107.04	81.53
Ydau a chnydau eraill	4.50	2.73
Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b.	6.35	4.99
CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)	117.89	89.25
CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)	112.95	85.59

	Pob fferm	Traean uchaf
DA BYW	nifer	nifer
Buchod godro	162	149
Buchod sugno	0	0
Gwartheg eraill	143	113
Defaid magu	80	63
Defaid eraill	38	10

	Pob fferm	Traean uchaf
DANGOSYDDION PERFFORMIAD		
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	7,069	7,887
Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch)	1,589	1,821
Gwerthiant llaeth (£ y fuwch)	2,223	2,502
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	31.86	32.09
Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.)	2.03	2.24

ELW BRAS: DEFAID MYNYDD**2013/14**

	Pob diadell Traean uchaf	
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	212	71
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	665	550
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.07	1.30

ALLBWN Y FENTER

	£ y ddafad	£ y ddafad
Gwerthiant ŵyn - stôr	3.58	3.32
- wedi'u pesgi	50.25	72.47
Gwerthiant defaid eraill	13.61	18.58
Gwerthiant gwlân	1.76	1.97
Amrywiol	0.03	0.01
Newid mewn gwerth	0.39	2.96
Pryniant defaid	-5.92	-8.03
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	63.70	91.28

COSTAU NEWIDIOL

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	18.77	20.43
Costau tir pori tymhorol	3.06	2.58
Milfeddygol a meddyginiaethau	4.47	5.04
Costau da byw eraill	5.49	6.67
Contractio penodedig	1.08	1.14
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	11.46	12.31
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	44.33	48.17

ELW BRAS**19.37** **43.11****ELW BRAS: DEFAID UCHELDIR****2013/14**

	Pob diadell Traean uchaf	
Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	71	24
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	485	527
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.36	1.55

ALLBWN Y FENTER

	£ y ddafad	£ y ddafad
Gwerthiant ŵyn - stôr	3.08	4.69
- wedi'u pesgi	91.52	113.20
Gwerthiant defaid eraill	14.28	19.38
Gwerthiant gwlân	2.27	2.13
Amrywiol	0.04	0.01
Newid mewn gwerth	0.02	4.57
Pryniant defaid	-15.35	-21.33
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	95.86	122.65

COSTAU NEWIDIOL

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	23.85	21.89
Costau tir pori tymhorol	1.19	0.74
Milfeddygol a meddyginiaethau	5.49	5.11
Costau da byw eraill	7.18	8.05
Contractio penodedig	1.23	1.28
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	16.60	13.91
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	55.54	50.98

ELW BRAS**40.32** **71.67**

ELW BRAS: DEFAID LLAWR GWLAD**2013/14****Pob diadell Traean uchaf**

Nifer o ddiadelloedd yn y sampl	48	16
Maint y ddiadell (i'r hwrdd)	371	383
Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.38	1.54

ALLBWN Y FENTER**£ y ddafad****£ y ddafad**

Gwerthiant ŵyn - stôr	0.31	0.00
- wedi'u pesgi	103.07	120.42
Gwerthiant defaid eraill	15.71	15.56
Gwerthiant gwllân	2.32	2.55
Amrywiol	0.00	0.00
Newid mewn gwerth	-0.61	0.72
Pryniant defaid	-16.52	-11.95
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	104.28	127.30

COSTAU NEWIDIOL

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	22.25	22.81
Costau tir pori tymhorol	1.52	1.64
Milfeddygol a meddyginiaethau	6.74	6.43
Costau da byw eraill	8.62	8.87
Contractio penodedig	1.34	1.08
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	15.11	14.28
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	55.58	55.11

ELW BRAS**48.70****72.19****ELW BRAS: BUCHOD SUGNO LLAWR GWLAD****2013/14****Pob buches Traean uchaf**

Nifer o fuchesi yn y sampl	23	8
Maint y fuches (buchod magu)	37	38
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.81	0.88
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,329	1,406
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	809	1,030

ALLBWN Y FENTER**£ y fuwch****£ y fuwch**

Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	271.77	147.57
Gwerthiant teirw a buchod	98.23	120.20
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	745.19	1,110.67
Newid mewn gwerth	-9.61	71.34
Pryniant gwartheg	-129.77	-153.40
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	975.81	1,296.38

COSTAU NEWIDIOL

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	146.51	129.46
Milfeddygol a meddyginiaethau	32.26	26.29
Costau da byw eraill	99.06	101.07
Contractio penodedig	1.27	1.77
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	226.71	191.13
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	505.81	449.72

ELW BRAS**470.00****846.66**

ELW BRAS: BUCHOD SUGNO UCHELDIR		2013/14	
	Pob buches	Traean uchaf	
Nifer o fuchesi yn y sampl	45	15	
Maint y fuches (buchod magu)	48	50	
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.87	0.90	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,316	1,355	
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	914	996	
ALLBWN Y FENTER	£ y fuwch	£ y fuwch	
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	574.09	505.68	
Gwerthiant teirw a buchod	103.59	113.12	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	267.50	474.74	
Newid mewn gwerth	94.66	111.28	
Pryniant gwartheg	-165.88	-162.72	
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	873.96	1,042.10	
COSTAU NEWIDIOL			
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	180.07	143.85	
Milfeddygol a meddyginiaethau	41.14	44.62	
Costau da byw eraill	83.48	73.03	
Contractio penodedig	5.87	6.36	
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	205.46	174.18	
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	516.02	442.04	
ELW BRAS	357.94	600.06	

ELW BRAS: BUCHOD SUGNO MYNYDD		2013/14	
	Pob buches	Traean uchaf	
Nifer o fuchesi yn y sampl	140	47	
Maint y fuches (buchod magu)	35	33	
Lloi a fegir (nifer y fuwch)	0.90	0.91	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen)	1,222	1,322	
Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen)	900	997	
ALLBWN Y FENTER	£ y fuwch	£ y fuwch	
Gwerthiant lloi a gwartheg stôr	713.96	787.78	
Gwerthiant teirw a buchod	121.94	129.92	
Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi	229.79	283.81	
Newid mewn gwerth	32.03	61.90	
Pryniant gwartheg	-193.25	-211.44	
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	904.47	1,051.97	
COSTAU NEWIDIOL			
Porthiant a bwyd wedi'i brynu	238.80	174.27	
Milfeddygol a meddyginiaethau	47.43	39.36	
Costau da byw eraill	100.15	88.52	
Contractio penodedig	5.05	4.19	
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	178.94	176.34	
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	570.37	482.68	
ELW BRAS	334.10	569.29	

ELW BRAS: BUCHOD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL**2013/14**

	Pob buches Traean uchaf	
Nifer o fuchesi yn y sampl	72	24
Maint y fuches (buchod godro)	122	114
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	6,791	8,006
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	31.05	31.61

ALLBWN Y FENTER

	£ y fuwch	£ y fuwch
Llaeth	2,109.37	2,530.53
Lloi	124.36	143.72
Gwerthiant teirw a buchod	155.75	202.00
Newid mewn gwerth	103.36	62.38
Prynant gwartheg	-377.13	-347.31
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	2,115.71	2,591.32

COSTAU NEWIDIOL

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	614.78	637.19
Milfeddygol a meddyginiaethau	68.59	78.27
Costau da byw eraill	142.97	136.77
Contractio penodedig	19.86	10.58
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	207.58	231.05
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	1,053.78	1,093.86

ELW BRAS**1,061.93 1,497.46****ELW BRAS: BUCHOD GODRO LLAWR GWLAD****2013/14**

	Pob buches Traean uchaf	
Nifer o fuchesi yn y sampl	57	19
Maint y fuches (buchod godro)	162	132
Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch)	7,069	8,369
Pris llaeth (ceiniogau y litr)	31.86	31.87

ALLBWN Y FENTER

	£ y fuwch	£ y fuwch
Llaeth	2,251.96	2,666.69
Lloi	101.08	118.14
Gwerthiant teirw a buchod	150.26	183.50
Newid mewn gwerth	52.30	30.68
Prynant gwartheg	-315.25	-263.78
CYFANSWM ALLBWN Y FENTER	2,240.35	2,735.23

COSTAU NEWIDIOL

Porthiant a bwyd wedi'i brynu	672.49	693.49
Milfeddygol a meddyginiaethau	70.46	74.33
Costau da byw eraill	160.57	172.36
Contractio penodedig	30.66	26.68
Costau newidiol cynhyrchu porthiant	192.52	247.03
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	1,126.70	1,213.89

ELW BRAS**1,113.65 1,521.34**

COSTAU CYNHYRCHU CIG OEN**2013/14****Ceiniogau y kg pwysau byw**

	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	136	45	45

Bwyd	50.97	41.13	62.64
Milfeddygol a meddyginiaethau	11.22	9.43	13.30
Costau da byw eraill	16.98	15.79	18.96
Porthiant	28.37	21.16	36.12
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	107.54	87.51	131.02

ADNEWYDDU DIADELL	20.58	14.46	27.79
--------------------------	--------------	--------------	--------------

Llafur y telir amdano	6.13	4.21	8.26
Pŵer a pheiriannau	48.22	32.49	68.81
Adeiladau	12.71	8.14	17.18
Costau fferm cyffredinol	20.23	14.58	28.79
Rhent	7.40	4.42	12.02
Cyllid	6.11	1.58	10.46
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	100.80	65.42	145.52

CYFANSWM COSTAU	228.92	167.39	304.33
------------------------	---------------	---------------	---------------

ELW NET	-39.45	31.88	-122.74
----------------	---------------	--------------	----------------

Ŵyn a fegir (nifer y ddafad)	1.29	1.47	1.09
Maint y ddiadell	641	530	675
Cyfartaledd oen pwysau byw (kg)	38.79	40.74	36.16

COSTAU CYNHYRCHU LLAETH**2013/14****Ceiniogau y litr**

	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	119	40	40

Bwyd	8.68	7.35	9.86
Milfeddygol a meddyginiaethau	0.98	0.83	1.10
Costau da byw eraill	2.59	2.08	3.10
Porthiant	2.86	2.60	3.28
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	15.11	12.86	17.34

ADNEWYDDU BUCHES	1.86	1.32	2.63
-------------------------	-------------	-------------	-------------

Llafur y telir amdano	0.91	0.51	1.55
Pŵer a pheiriannau	3.03	2.80	3.31
Adeiladau	1.16	1.06	1.40
Costau fferm cyffredinol	1.51	1.34	1.80
Rhent	0.38	0.29	0.43
Cyllid	0.56	0.22	1.08
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	7.55	6.22	9.57

CYFANSWM COSTAU	24.52	20.40	29.54
------------------------	--------------	--------------	--------------

ELW NET	8.36	13.20	3.19
----------------	-------------	--------------	-------------

Mantais dros ddwysfwyd	22.65	24.47	21.24
Pris llaeth	31.06	31.59	30.78

COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION : LLOI SUGNO 2013/14

Ceiniogau y kg pwysau byw	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	74	25	25
Bwyd	25.21	15.18	42.27
Milfeddygol a meddyginiaethau	12.55	8.58	15.81
Costau da byw eraill	19.16	13.42	30.69
Porthiant	49.46	41.29	59.54
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	106.38	78.47	148.31
ADNEWYDDU BUCHES	10.75	1.85	17.70
Llafur y telir amdano	10.53	4.02	16.61
Pŵer a pheiriannau	82.18	59.80	114.19
Adeiladau	24.00	15.86	34.66
Costau fferm cyffredinol	32.97	26.68	43.79
Rhent	5.54	3.62	6.36
Cyllid	9.97	4.15	19.17
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	165.19	114.13	234.78
CYFANSWM COSTAU	282.32	194.45	400.79
ELW NET	-111.40	-6.96	-241.52

Mae cynhyrchu lloi sugno yn cyfeirio at gostau buchod sugno a'u lloi hyd at adeg diddyfnu.

COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: PESGI 2013/14

Ceiniogau y kg pwysau byw	Pob fferm	Traean uchaf	Traean isaf
Nifer o ffermydd	25	8	8
Bwyd	63.35	47.46	79.96
Milfeddygol a meddyginiaethau	4.32	4.04	4.19
Costau da byw eraill	31.23	33.08	32.20
Porthiant	41.34	45.71	40.93
CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL	140.24	130.29	157.28
Llafur y telir amdano	7.37	2.22	9.45
Pŵer a pheiriannau	58.51	60.62	65.85
Adeiladau	15.42	13.15	21.53
Costau fferm cyffredinol	21.60	22.38	23.75
Rhent	7.85	13.25	4.32
Cyllid	7.64	4.44	14.57
CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG	118.39	116.06	139.47
CYFANSWM COSTAU	258.63	246.35	296.75
ELW NET	3.81	72.35	-62.05

Mentrau pesgi yw'r rhai hynny sy'n prynu gwartheg cryfion ag ifanc, a'r rhai sy'n pesgi lloi fagwyd ar y fferm ar ôl diddyfnu.

Cyswllt Ffermio - cynnig cymorth, cyngor ac arweiniad i helpu eich fferm neu eich busnes coedwigo gyrraedd ei botensial

Gall ein staff rhanbarthol roi pecyn cymorth i chi, sydd wedi'i baratoi yn arbennig ar eich cyfer, i helpu a datblygu eich busnes.

Bydd ein hamrywiaeth eang o ddigwyddiadau, cyfarfodydd, grwpiau trafod a gweithdai Cyswllt Ffermio, sy'n derbyn cyllid llawn, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am yr wybodaeth a'r canllawiau technegol diweddaraf, ac hefyd yn rhoi'r cyfle i chi:

- Ystyried syniadau newydd a ffyrdd mwy effeithiol o weithio
- Elwa o gymorth technegol a chymorth busnes
- Lleihau mewnbwn a gwella effeithiolrwydd
- Nodi meysydd ar gyfer gwella a dod o hyd i atebion i broblemau
- Dod i wybod y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau yn y diwydiant a meincnodi eich perfformiad
- Rhannu arferion gorau ac elwa o'r wybodaeth a'r arbenigedd sydd gan ffermwyr eraill ac arbenigwyr y diwydiant

Am ragor o wybodaeth am raglen ddiweddaraf Cyswllt Ffermio, ewch i www.farmingconnect.co.uk neu i gael y newyddion diweddaraf edrychwch ar www.cymru.gov.uk/gwlad

Caiff Cyswllt Ffermio ei ariannu drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 sy'n derbyn cyllid gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Bydd y Rhaglen Cyswllt Ffermio gyfredol yn parhau tan 31 Mawrth 2015. Mae'n bosib y bydd rhaglen newydd o gymorth ar gael drwy wasanaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a Chynghori arfaethedig Llywodraeth Cymru o fewn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020. Mae'n bosib y bydd Rhaglenni Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn newid tan i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno ar y rhaglen lawn.